

## Ymarfer Gwirio Ysgolion 2018-19

Cyflwynwyd adroddiad Crynodeb Perfformiad Ysgolion Uwchradd (SSSP) yn 2008 ac mae'n cynnwys crynodeb o wybodaeth am arholiadau CA4 a CA5, yn benodol i bob ysgol, sy'n cael ei chasglu gan FFT Education (FFT) ar ran Llywodraeth Cymru. Gan ddefnyddio data o nifer o sefydliadau dyfarnu Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr bob blwyddyn, mae cofnod cronol o gyflawniad pob disgybl yng Nghymru yn cael ei greu. Mae'r canlyniadau hyn ar lefel disgyblion wedyn yn cael eu hagregu i lefel yr ysgol yn yr adroddiad SSSP. Fel y gwnaed yn y blynyddoedd diwethaf, rydym yn bwriadu anfon fersiynau dros dro a therfynol o adroddiadau SSSP i ysgolion yn ystod Hydref i Ragfyr 2018, er mwyn i ysgolion wirio eu data lefel disgybl a chyrrhaeddiad.

Mae'r ymarfer gwirio data ysgolion yn cael ei wneud drwy ddesg gymorth ar-lein sy'n cael ei gydlynu gan Lywodraeth Cymru a FFT, sy'n galluogi i docynnau gael eu rhoi i ysgolion ar gyfer ymholiadau. Mae'r ddogfen yma yn rhoi mwy o wybodaeth am broses y ddesg gymorth.

Mae'r ddogfen hefyd yn rhoi gwybodaeth am broses yr ymarfer gwirio ar gyfer 2018-19 a'r amserlen, gan gynnwys gwybodaeth am garfan y disgyblion a chymeradwyo cymwysterau. Mae adran 4 o'r ddogfen yn gofyn i ysgolion ddarparu gwybodaeth i FFT am sefydliadau dyfarnu sydd ar goll ac i wirio eu cyfrifon ar gyfer y Ddesg Gymorth – **gofynnwn i ysgolion sicrhau eu bod yn anfon yr wybodaeth yma i FFT erbyn 27 Medi 2019**. Ceir mwy o wybodaeth am hyn nes ymlaen yn y ddogfen.

### 1. Ymarfer Gwirio Ysgolion ar gyfer 2018/19

#### 1.1 Newidiadau i'r Ymarfer Gwirio Ysgolion am y flwyddyn yma

##### Cofrestru am arholiad am y tro cyntaf ym Blwyddyn 11

O 2018/19 ymlaen byddwn yn cyhoeddi ffigurau yn seiliedig ar gofrestrriad disgybl Blwyddyn 11 ar gyfer arholiad am y tro cyntaf, nid y canlyniad gorau fel y gwnaed yn y blynyddoedd diwethaf (e.e. disgybl yn cael gwell marc drwy ailsefyll arholiad). Gwnewch yn siŵr wrth godi tocynnau eich bod yn cymharu data o'r **cofrestrriad cyntaf**. Nid yw hyn yn berthnasol i fyfyrwyr uwchlaw Blwyddyn 11, beth bynnag y bo lefel y cymhwyster.

##### Prif Ddangosyddion Newydd ar gyfer Blwyddyn 11

Mae pum prif ddangosydd newydd yn cael eu cyflwyno: Sgôr pwyntiau wedi'u capio (gweler isod), Sgôr pwyntiau Llythrennedd, Sgôr pwyntiau Rhifedd, Sgôr pwyntiau Gwyddoniaeth a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru. Mae pob un o'r tair sgôr ar gyfer pynciau yn cymryd y cymhwyster gorau yn y categori hwnnw ac yn priodoli sgôr pwyntiau yn seiliedig ar y radd a gafwyd. Dim ond y dangosyddion newydd hyn y bydd yr SSSP yn eu dangos. Mae'r dadansoddiadau ar gyfer L1, L2, L2 cynhwysol, 5A\*-A ac ar gyfer y pynciau o SSSP y llynedd wedi eu symud i'r ffeil Dangosyddion Ychwanegol.

##### Sgôr pwyntiau wedi'u capio

Mae'r gofynion penodol o ran pwnc wedi'u gostwng. Mae'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio bellach yn cynnwys y cymhwyster llythrennedd gorau, y cymhwyster rhifedd gorau, y cymhwyster gwyddoniaeth unigol gorau a 6 chymhwyster arall (yn ôl maint) ar gyfer pob disgybl. Dim ond TGAU fydd yn cyfrif tuag at y gofyniad ar gyfer cymwysterau gwyddoniaeth yn y sgôr pwyntiau wedi'u capio, fel yr argymhellir gan yr Adolygiad o Gymwysterau. Gall cymwysterau Gwyddoniaeth nad ydynt yn TGAU barhau i gyfrif tuag at y 6 chymhwyster sy'n weddill nad ydynt yn destun pwnc penodol.

## **Mae'r eitemau isod o'r llynedd yn dal i fod yn gymwys yn 2018-19:**

### **Terfyn ar gyfraniad cymwysterau nad ydynt yn TGAU**

Fel yr argymhellir gan yr Adolygiad o Gymwysterau, mae terfyn ar gyfer cyfanswm gwerth cyfraniad cymwysterau nad ydynt yn TGAU yn y mesurau trothwy (e.e. L2 cynhwysol, lefel 2). Uchafswm y cyfraniad fydd 40 y cant. Er mwyn i ddisgybl gyrraedd y trothwy lefel 2 cynhwysol eleni felly, bydd yn rhaid i ddisgybl ennill o leiaf 3 TGAU gradd C neu'n uwch.

Ni chaiff y terfyn hwn ei ddefnyddio gyda'r Sgôr Pwyntiau wedi'u capio.

### **Cymwysterau diwygiedig**

Dim ond y cymwysterau diwygiedig newydd ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith, TGAU Saesneg Iaith, TGAU Mathemateg-Rhifedd a TGAU Mathemateg fydd yn cael eu cynnwys mewn unrhyw ddangosydd lle mae gofynion sy'n rhai pwnc-benodol, er enghraifft L2 cynhwysol a'r sgôr pwyntiau wedi'u capio ar 9.

Ceir manylion llawn o'r newidiadau i fesurau perfformiad CA4 yn y ddolen isod:

<https://llyw.cymru/trefniadau-interim-perfformiad-ysgolion-yng-nghyfnod-allweddol-4>

### **Cymwysterau nad ydynt yn TGAU**

O 2016-17 ymlaen, byddwn hefyd yn gweld terfyn ar werth cyfraniad cymwysterau nad ydynt yn TGAU i fesurau perfformiad. Bydd gan unrhyw gymhwyster unigol uchafswm cywerthedd, o ran perfformiad, o 2 TGAU, sy'n berthnasol i bob mesur.

### **Templedi ar gyfer y Tocynnau**

Fel y gwnaed yn 2017-18, bydd disgwyl i ysgolion lanw ac atodi templed Excel ochr yn ochr â thocynnau mathau 1-6. Bydd y templedi yn helpu ysgolion i wybod yn union pa wybodaeth sydd angen ei chyflwyno ar gyfer pob tocyn, a bydd hefyd yn helpu FFT gyda'r gwaith o brosesu'r tocynnau. Bydd templed Excel unigol ar gyfer pob math o docyn 1-6, a cheir mwy o wybodaeth am hyn yn adran 1.4. Mae'r templedi ar gyfer y tocynnau wedi eu hatodi gyda'r llythyr yma, er mwyn i chi ddod yn gyfarwydd â nhw cyn yr ymarfer gwirio.

**Nodwch y bydd methu â chwblhau'r templed Excel yn llawn ar gyfer tocynnau 1-6 yn achosi i'r tocynnau beidio â chael eu prosesu.**

### **Ailfarcio**

**Nodwch fod yr adran hon yn ymwneud â chanlyniadau arholiadau sydd wedi eu hailfarcio yn hytrach nag ailsefyll arholiadau.**

Mae'r broses ar gyfer ail-farcio yn parhau i fod yr un peth â'r llynedd. Label Tocyn Math 4 yw 'Ailfarcio a Graddau Anghywir'. Dylai unrhyw ymholiadau yn ymwneud â EAR (Ymholiadau am Ganlyniadau/*Enquires about Results*) gael eu logio o dan y math yma o docyn.

Cesglir diweddariadau cyson gan gyrff dyfarnu ar ôl diwrnod y canlyniadau ac, mewn nifer o achosion, gall canlyniadau ail-farcio gael eu derbyn ar ôl cyhoeddi'r data dros dro. Am na allwn gadarnhau hyn, fodd bynnag, dylai ymholiadau am ail-farcio sy'n ymwneud ag Adroddiadau Ymgeiswyr Dros Dro gael eu hadrodd o dan **Docyn Math 4** yn ystod y cyfnod gwirio **cyntaf**, yn **ddelfrydol cyn dydd Mawrth 15 Hydref** ac nid yn hwyrach na **dydd Gwener 18 Hydref**. Bydd unrhyw docyn a gyflwynir ar ôl dydd Mawrth 15 Hydref yn cael ei adolygu ar ôl i'r Ddesg Gymorth gau a dim ond os cafwyd digon o wybodaeth y caiff hyn ei roi ar waith.

Rhaid darparu'r wybodaeth lefel disgybl/cymhwyster a ddangosir yn y tabl yn adran 1.4, o fewn templed Excel y tocyn. Nodwch os yw'r EAR yn dal i fod ar agor gyda'r sefydliad dyfarnu, a marciwch y radd gywir fel 'yn yr arfaeth'.

Dylai unrhyw ymholiad marcio sydd heb ei ateb gyda chorff dyfarnu, boed yn achos EAR unigol neu'n Adolygiad Estynedig o farcio ar gyfer carfan neu ddsbarth o ddisgyblion, gael tocyn wedi ei logio yn ystod y cyfnod gwirio cyntaf. Os yw unrhyw achosion o ailfarcio yn dal i fod ar agor erbyn diwedd y cyfnod gwirio cyntaf, dylai'r ffenest tystiolaeth hwyr gael ei defnyddio i ddarparu tystiolaeth o newidiadau i'r graddau. Dim ond ar gyfer disgyblion/cymwysterau ar docynnau a grëwyd yn ystod y cyfnod gwirio cyntaf y bydd tystiolaeth yn cael ei derbyn. Mae'r ffenest ar gyfer tystiolaeth hwyr ar agor o ddydd Llun 21 Hydref i ddydd Gwener 25 Hydref, sy'n rhoi amser i raddau a gafodd eu hailfarcio gael eu hanfon i FFT gan y sefydliadau dyfarnu. **Nodwch, fodd bynnag, os na chodwyd tocyn ailfarcio yn ystod y cyfnod gwirio cyntaf neu os na raddiwyd digon o wybodaeth, mae posiblirwydd o hyd na fydd yr ail farc yn cael ei adlewyrchu yn y SSSP.**

Cynghorir ysgolion i fanteisio ar y cyfle cynharaf ar ôl diwrnod cyhoeddi'r canlyniadau i gyflwyno pob EAR, er mwyn rhoi digon o amser i unrhyw newidiadau yn y graddau gael eu hadlewyrchu yn y SSSP.


## 1.2 Amserlen

Fersiwn SSSP	Ymarfer Gwirio	Dechrau	Gorffen	
<b>SSSPs dros dro ar gael i'w lawrlwytho o DEWI: Gwener 4/10/19</b>				
Dros dro	1	Cyflwyno tocynnau a thystiolaeth <i>Anelu i bob tocyn gael ei gyflwyno erbyn dydd Mawrth 16 o Hydref</i>	Gwener 4/10/19	Gwener 18/10/19
	Desg Gymorth ar Gau			
	2	Ffenest Tystiolaeth Hwyr <i>(Dim tocynnau newydd)</i>	Llun 21/10/19	Gwener 25/10/19
	Desg Gymorth ar Gau			
<b>SSSPs wedi'u gwirio ar gael i'w lawrlwytho o DEWI: Iau 07/11/19</b>				
Wedi'u cywiro	3	Tocynnau sy'n weddill <i>(dim tocynnau na thystiolaeth newydd)</i>	Mercher 13/11/19	Mawrth 19/11/19
	Y Ddesg Gymorth ar Gau			
<b>SSSPs terfynol ar gael i'w lawrlwytho o DEWI: Gwener 6/12/19</b>				

- 1 - Bydd y ddesg gymorth ar agor o 9am ddydd Gwener 4 Hydref tan 4pm ddydd Gwener 18 Hydref. Taer anogir pob ysgol i gyflwyno eu tocynnau i gyd erbyn 4pm ddydd Mawrth 15 Hydref.
- 2 - Bydd y ffenest yma yn cynnig cyfle olaf i ysgolion gyflwyno tystiolaeth. Ni ellir creu tocynnau newydd a ni ellir estyn sgôp y tocynnau sy'n bodoli.
- 3 - Yn ystod yr wythnos yma dylai ysgolion ddiweddarar unrhyw docynnau lle na wnaed unrhyw gywiriadau y cytunwyd arnynt yn ystod yr ymarfer gwirio dros

dro. Ni ellir creu tocynnau newydd a ni ellir estyn sgôp y tocynnau sy'n bodoli.

**Bydd tocynnau a gyflwynwyd dridiau neu fwy cyn diwedd y cyfnod gwirio cyntaf yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn gyflawn gan FFT a bydd cyfle i'r ysgolion hynny ychwanegu gwybodaeth sydd ar goll.**



**Bydd unrhyw docyn a gyflwynir ar ôl dydd Mawrth 15 Hydref yn cael ei adolygu ar ôl i'r Ddesg Gymorth gau a dim ond os cyflwynwyd y templed perthnasol, wedi ei lenwi yn llawn, y bydd yn cael ei roi ar waith. Ni fydd cyfle dilynol yn berthnasol i'r tocynnau yma.**

### 1.3 Y Math o Docyn ar gyfer Cymwysterau sydd Ar Goll

Isod gwelir gwybodaeth am y math o docyn ar gyfer ymholiadau am gymwysterau sydd ar goll sy'n ymwneud â chyrhaeddiad blaenorol neu sefydliadau dyfarnu lle nad oedd yn bosib casglu data o'r blaen.

**(a) Sefydliadau dyfarnu lle cesglir data 2018/19 ganddynt:**

ABC Awards, Agored Cymru, AQA, ASDAN, Associated Board of the Royal Schools of Music (ABRSM), British Computer Society (BCS), British Safety Council (BSC), CACHE, City and Guilds, CCEA, Cambridge International Examinations (CIE), Chartered Institute of Environmental Health (CIEH), C Skills, EMTA Awards Ltd (EAL), IFS School of Finance, IMI Awards Ltd (IMIAL), NCFE, National Open College Network (NOCN), OCR, Pearson (Edexcel/EDI), Prince's Trust, Rock School Ltd (RSL), Sports Leaders UK, VTCT, CBAC.

**(b) Sefydliadau dyfarnu lle na chesglir data 2018/19 ganddynt mwyach:**

- Association of Accounting Technicians (AAT)
- Imperial Society of Teachers of Dancing (ISTD)
- Royal Academy of Dance (RAD)
- Royal Society for Public Health (RSPH)
- Open Awards (OA)

- University of West London (UWL)
- Trinity College London (TCL)
- Unrhyw gorff dyfarnu arall sydd heb ei restru

Fel y gwnaed yn 2017-18, bydd cymwysterau cymeradwy gan y sefydliadau dyfarnu yma yn cael eu hychwanegu i Gronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED) gan ddefnyddio'r Tocyn Math 1.

Os oes unrhyw ysgolion yn defnyddio sefydliadau dyfarnu heb eu rhestru yn naill ai (a) neu (b), yna e-bostiwch [wedsupport@fft.org.uk](mailto:wedsupport@fft.org.uk) gydag enw'r sefydliad dyfarnu, y cymhwyster dan sylw, gan gynnwys eu cod QAN, a nifer y disgyblion sy'n astudio ar gyfer y cymhwyster. Dylid ychwanegu cymwysterau cymeradwy ar gyfer y sefydliadau dyfarnu yma drwy **Docyn Math 1**.

Pwrpas y tocyn ychwanegol yw gwella'r gwaith o brosesu ymholiadau ynglŷn â chymwysterau sydd ar goll, trwy wahaniaethu rhwng ymholiadau a fydd yn ychwanegiadau ar sail tystiolaeth i Gronfa Ddata Arholiadau Cymru ac ymholiadau y bydd angen ymchwilio iddynt am na chawsant eu hadnabod yn y data a gyflwynwyd ar gyfer 2018/19 gan sefydliadau dyfarnu (Tocyn Math 2).

Dylid hefyd defnyddio **Tocyn Math 1** ar gyfer unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â chymwysterau sydd ar goll a gymerwyd cyn blwyddyn academiaidd 2018/19 (h.y. cyfres arholiadau Haf 2018 a chyn hynny).

#### 1.4 Y math o docynnau ar gyfer Ymarfer Gwirio Ysgolion 2018/19

Y math o docyn		Cyfrifoldeb FFT neu Lywodraeth Cymru?
1	Cymhwyster sydd heb ei gasglu	FFT
2	Ymchwiliad i gymhwyster sydd ar goll	FFT
3	Cymhwyster anhysbys/heb ei adnabod	FFT
4	Graddau anghywir neu raddau a ail-farciwyd	FFT
5	Disgybl sydd ar goll	FFT
6	Disgybl anhysbys/heb ei adnabod	FFT
7	Rhifau disgybl (Tudalen 4 ar y ffurflen SSSP)	LIC
8	Ymholiad NEWBES	LIC
9	Achrediad cymhwyster	LIC
10	Cyfrifon ar y ffurflen SSSP neu Ddangosyddion Categoriiddio Ysgolion	LIC
11	Ymholiad arall	FFT

#### Cyflwyno Ymholiadau am Gymwysterau sydd Ar Goll

Dylid defnyddio Tocyn Math 1 – Cymhwyster sydd heb ei gasglu – ar gyfer:

- Sefydliadau dyfarnu wedi eu rhestru yn (b)\*, a
- Sefydliadau dyfarnu **heb** eu rhestru yn naill ai (a) neu (b)\*, a
- Pob cymhwyster (ni waeth pwy yw'r sefydliad dyfarnu) a gymerwyd yn 2016/17 neu'n gynt.

Dylid defnyddio Tocyn Math 2 – Ymchwiliad i gymhwyster sydd ar goll – ar gyfer:

- Cymwysterau a gymerwyd yn 2018/19 gyda sefydliadau dyfarnu a restrwyd yn (a).

\*Dylai ysgolion sy'n defnyddio unrhyw un o'r sefydliadau dyfarnu a restrwyd yn (b), neu unrhyw sefydliad dyfarnu arall na chafodd ei restru yn naill ai (a) neu (b), baratoi o flaen llaw ar gyfer cyflwyno eu tocynnau Math 1. Mae'r wybodaeth adnabod sydd ei hangen ar gyfer disgyblion/cymwysterau wedi ei nodi isod, a dylid ei pharatoi i'w chyflwyno.

Fel y soniwyd eisoes, mae disgwyl i ysgolion lanw ac atodi templed Excel ochr yn ochr â thocynnau mathau 1-6. Bydd templed unigol ar gyfer pob math o docyn 1-6, a cheir y manylion am yr wybodaeth sydd ei hangen yn y tabl isod. Mae templedi'r tocynnau wedi eu hatodi i'r llythyr yma, er mwyn i chi ddod yn gyfarwydd â nhw cyn yr ymarfer gwirio.

- **Nodwch y bydd methu gyrru'r templed Excel wedi'i llenwi â'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer tocynnau 1-6 yn golygu na fydd y tocynnau'n ddilys.**
- **Bydd angen i ysgolion nodi rhif eu hysgol a rhif cyfeirnod y tocyn ar enw ffeil bob templed Excel. Cynhyrchir rhif cyfeirnod tocynnau unwaith y bydd y tocyn yn cael ei greu, a byddant yn cael eu hanfon allan hefyd drwy e-bost. Ceir mwy o wybodaeth yng Nghannllawiau Desg Gymorth FFT ym mis Hydref.**

Math o docyn		Rhif ysgol	Rhif disgybl SSSP (CandNo)	Enw Gyntaf	Cyfenw	Enwau Canol	Rhywedd	UPN	Dyddiad Geni	Rhif Arholiad	QANCode	Teitl y Cymhwyster	Corff Gwobrwyo	Gradd yn yr SSSP	Gradd Cywir	Dyddiad Gwonnwyo	Canolfan Allanol
1	Cymhwyster sydd heb ei gasglu	●	●	●	●				●		●	●	●		●	●	□
2	Ymchwiliad i gymhwyster sydd ar goll	●	●	●	●				●		●	●	●		●	●	□
3	Cymhwyster anhysbys/heb ei adnabod	●	●	●	●					●	●	●					
4	Graddau anghywir neu raddau a ailfarciwyd	●	●	●	●					●	●	●	●	●	★	●	
5	Disgybl sydd ar goll	●		●	●	●	●	●	●								
6	Disgybl anhysbys/heb ei adnabod	●	●	●	●												

ALLWEDD - MAES ANGENRHEIDIOL	
●	Angenrheidiol – bydd methu rhoi'r wybodaeth yma yn golygu na fydd y tocynnau'n ddilys.
★	Angenrheidiol <u>ac eithrio</u> ar gyfer ymholiadau marcio sydd heb eu cwblhau. Ar gyfer achosion o'r fath, nodwch 'Gradd gywir yn yr arfaeth'.
□	Angenrheidiol lle bo'n berthnasol, h.y. lle bo'r dyfarniad wedi'i gofrestru gan ganolfan allanol.

ALLWEDD - DIFFINIADAU MAES	
Rhif ysgol	Rif 7-digid yr ysgol (NID rhif canolfan y corff gwobrwyo).
Rhif Disgybl <b>SSSP</b> (CandNo)	RHIF ymgeisydd SSSP (NID rhif ymgeisydd y corff gwobrwyo).
Enw cyntaf	Dylai manylion y disgyblion ymddangos fel y maent yn ymddangos ar yr SSSP. Nodwch os yw manylion y disgyblion a gyflwynwyd at ddibenion CYBLD yn wahanol i'r manylion a roddwyd i'r corff dyfarnu. Nodwch hefyd os gwyddoch am unrhyw gamsillafu neu fanylion personol a gafodd eu teipio'n anghywir ar unrhyw ddogfennau'n cofrestru ar gyfer arholiadau.
Cyfenw	
Enwau canol	
Rhyw	
UPN	
Dyddiad geni	
Rhif arholiad	Rhif arholiad fel mae'n ymddangos ar yr SSSP.
QANCode	Côd 8-digid y cymhwyster.
Teitl y cymhwyster	Teitl llawn a phwnc y cymhwyster.
Sefydliad dyfarnu	Enw llawn y corff gwobrwyo.
Gradd SSSP	Y gradd fel y mae'n ymddangos ar yr SSSP.
Gradd Gywir	Y radd gywir, os yw'n hysbys.
Dyddiad Dyfarniad	Y dyddiad y dyfarnwyd y cymhwyster. Nid oes raid iddo fod yr union ddyddiad os nad yw'n hysbys ond nodwch a gafodd y dyfarniad ei hawlio neu ei gwblhau'n ddiweddar (h.y. ar ôl rhyddhau canlyniadau'r haf).
Canolfan Allanol	Rhowch fanylion y ganolfan (enw ac NCN neu rif y ganolfan) a gofrestrodd y dyfarniad os yw'n wahanol i rif yr ysgol.

## 1.5 Tystiolaeth

Gall atodiadau cael eu hychwanegu i docynnau yn ystod cyfnod yr ymarfer gwirio pythefnos, a hefyd yn ystod y ffenestr tystiolaeth hwyr.

Y math o docyn	Angen tystiolaeth?	Gwybodaeth ychwanegol
1	✓	Bydd methu darparu tystiolaeth dderbyniol yn golygu na fydd y tocynnau'n ddilys.
2	✓	Mewn rhai achosion, gall diweddariadau gan gyrff dyfarnu olygu na fydd angen tystiolaeth. Lle bo angen tystiolaeth, a bod y dystiolaeth honno heb ei chyflwyno, yna bydd ysgolion yn cael gwybod.
4	✓	

Gwybodaeth dderbyniol:

- ✓ Copïau clir o ddogfennau swyddogol y sefydliadau dyfarnu wedi'u stampio, e.e. tystysgrifau arholiad a ffurflenni canlyniadau.
- ✓ Sgrinlun clir o systemau ar-lein sefydliadau dyfarnu, lle bo'r sefydliad dyfarnu, manylion y disgyblion a'r cymhwyster, a'r radd a ddyfarnwyd ar gyfer y cymhwyster, i gyd wedi eu dangos yn glir.

Tystiolaeth annerbyniol:

- ✗ Ni dderbynnir rhannau o systemau gwybodaeth reoli ysgolion fel tystiolaeth o gyflawniad.
- ✗ Ni dderbynnir tystiolaeth sy'n dangos unedau cyfrannol heb ddangos y cyflawniad cyflawn ar gyfer cymhwyster.



## 2. Gwybodaeth am garfan y disgybl

Ar gyfer canlyniadau 2018-19, byddwn yn cyflwyno adroddiadau ar berfformiad ysgolion ar sail carfan blwyddyn 11 yn hytrach nag ar gyfer disgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn. Ceir mwy o wybodaeth am y newid yma yn adran 1.1.

Ar gyfer 2018-19, bydd y garfan CA4 yn seiliedig ar nifer y disgyblion a oedd wedi eu cofrestru ym mlwyddyn 11 yn yr ysgol ar 15 Ionawr 2018, sef dyddiad cyfrifiad yr ysgol. Dim ond disgyblion gyda statws cofrestriad "C" (*Current*) neu "M" (*Main*) yng nghyfrifiad yr ysgol a fydd yn cael eu cynnwys.

Nodwch y bydd data ar gyfer ysgolion annibynnol yn parhau i fod yn seiliedig ar ddisgyblion 15 oed gan nad yw grŵp blwyddyn yn cael ei gasglu am y sector yma.

**Mae'r diffiniad ar gyfer carfan CA5 yn parhau i fod yr un fath â'r llynedd.** Bydd data arholiadau CA5 yn seiliedig ar ddisgyblion a oedd yn 17 oed ar 31 Awst 2017 ac oedd wedi eu cofrestru yn yr ysgol ar 15 Ionawr 2019, sef dyddiad cyfrifiad yr ysgol, yn unig. Dim ond disgyblion gyda statws cofrestriad "C" (*Current*) neu "M" (*Main*) yng nghyfrifiad yr ysgol a fydd yn cael eu cynnwys. Bydd disgyblion 17 oed o fewn grwpiau blwyddyn heblaw blwyddyn 13 hefyd yn cael eu cynnwys. Ni fydd disgyblion ym mlwyddyn 13 nad ydynt yn 17 oed yn cael eu cynnwys.

Bydd disgyblion a ymunodd â'r ysgol ar ôl dyddiad cyfrifiad yr ysgol yn cael eu cysylltu yn ôl i'r ysgol yr oeddent wedi eu cofrestru ynddi ar ddiwrnod y cyfrifiad, a bydd pob cymhwyster yn perthyn i'r ysgol gyfrifiad.

## 3. Gwybodaeth am gymeradwyo cymwysterau

Eleni, byddwn yn defnyddio Cronfa Ddata newydd Cymwysterau yng Nghymru (QiW) sy'n cael ei chynnal gan Gymwysterau Cymru, er mwyn penderfynu a yw cymhwyster wedi ei gymeradwyo ar gyfer blwyddyn academiaidd 2018/19.

<https://www.qiw.wales/?lang=cy>

Ar gyfer 2018/19, diffinnir cymhwyster fel un sydd wedi ei gymeradwyo os yw dyddiad cwblhau'r ardystiad ar ôl 31 Awst 2018 (os yw dyddiad cwblhau'r ardystiad cyn hyn, yna ni all tystysgrif fod wedi ei darparu yn y flwyddyn academiaidd gyfredol 2018/19). Defnyddir y maes Ystodau Oedran hefyd er mwyn pennu ar gyfer pa grŵp oedran mae'r cymhwyster wedi ei gymeradwyo. Er enghraifft, dim ond cymwysterau sydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer y grŵp oedran cyn-16 fydd yn cael eu cynnwys ym mesuriadau perfformiad CA4.

## 4. Gweinyddu Ymarfer Gwirio Ysgolion ar gyfer 2018/19

### 4.1 Cyfrifon defnyddwyr y Ddesg Gymorth a gwybodaeth am y cyrff dyfarnu

**A fyddai ysgolion cystal â sicrhau bod gan y cyswllt sydd â chyfrifoldeb am wirio'r SSSP ym mis Hydref/mis Tachwedd ei gyfrif defnyddiwr ei hun ar gyfer y Ddesg Gymorth. Bydd hyn yn sicrhau fod yr holl ddogfennau, gan gynnwys nodiadau canllaw, yn gallu cael eu lawrlwytho gan y cyswllt priodol yn yr ysgol.**

Ar ôl darllen y ddogfen yma, dylai ysgolion nawr wneud yn siŵr eu bod yn e-bostio [wedsupport@fft.org.uk](mailto:wedsupport@fft.org.uk) erbyn **dydd Gwener 27 Medi** er mwyn darparu'r wybodaeth ganlynol:

#### (i) Gwiriad Cyfrifon



Dylai ysgolion gadarnhau'r cyfrifon defnyddwyr sydd eu hangen ar gyfer yr ymarfer gwirio. Bydd FFT yn defnyddio desg gymorth newydd y flwyddyn yma a bydd angen cyfrif newydd ar **bob** defnyddiwr. Rhowch wybod i FFT os oes angen cyfrif defnyddiwr arnoch drwy e-bost [wedsupport@fft.org.uk](mailto:wedsupport@fft.org.uk) a rhowch eich enw llawn, teitl eich swydd a'ch cyfeiriad e-bost, a bydd e-bost yn cael ei yrru atoch gyda dolen i actifadu eich cyfrif a gofyn i chi greu cyfrinair.

#### **(ii) Cyrff Dyfarnu heb eu rhestru yn Adran 1.3**

Rhowch enw'r corff dyfarnu, y cymwysterau sy'n cael eu cymryd (gan gynnwys cod y cymhwyster (*QAN code*) ) – a nifer y disgyblion sy'n cymryd y cymwysterau. Dylai cymwysterau o'r cyrff dyfarnu yma sydd wedi eu cymeradwyo gael eu hychwanegu drwy Docyn Math 1 'Cymhwyster sydd heb ei gasglu' yn ystod yr ymarfer gwirio yn hwyrach yn y flwyddyn. Hyd yn oed os rhestrwyd pob corff dyfarnu a ddefnyddir gan yr ysgol, efallai y bydd yn rhaid i'r ysgol gyflwyno Math Tocyn 1 o hyd, a bydd yn rhaid paratoi'r wybodaeth sydd ei hangen.

### **4.2 Canllawiau ar gyfer y Ddesg Gymorth**

Bydd nodiadau llawn ar gyfer y Ddesg Gymorth ar gael i'w lawrlwytho o DEWI ochr yn ochr â'r adroddiadau SSSP ym mis Hydref.

### **4.3 Ymholiadau**

Nodwch fod Desg Cymorth FFT ar gau ar hyn o bryd a bydd yn agor pan fydd Ymarfer Gwirio Ysgolion SSSP yn dechrau ddydd Gwener 4 Hydref.

**Cyn y dyddiad yma, nid yw tîm Cronfa Ddata Arholiadau Cymru yn FFT yn gallu prosesu ymholiadau unigol gan ysgolion.**

Yn y cyfamser, fodd bynnag, cysylltwch â Llywodraeth Cymru os bydd gennych ymholiadau cyffredinol [ystadegau.ysgolion@llyw.cymru](mailto:ystadegau.ysgolion@llyw.cymru).